

2012 Rhif 935 (Cy. 121)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn y Cwricwlwm
Cenedlaethol (Trefniadau Asesu
wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaenol)
(Cymru) (Dirymu) 2012

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

O dan adran 108(2)(b)(iii) o Ddeddf Addysg 2002 caiff Gweinidogion Cymru bennu drwy orchymyn unrhyw drefniadau asesu sydd yn eu barn hwy yn briodol i'r cyfnod sylfaen. Mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaenol) (Cymru) 2011 ("Gorchymyn 2011") yn nodi'r trefniadau hynny. Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn 2011.

2012 Rhif 935 (Cy. 121)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaenol) (Cymru) (Dirymu) 2012

Gwnaed 23 Mawrth 2012

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 27 Mawrth 2012

Yn dod i rym 18 Ebrill 2012

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 108(2)(b)(iii), (5), (6), (9) ac (11) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt(2), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaenol) (Cymru) (Dirymu) 2012 a daw i rym ar 18 Ebrill 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu

2. Mae Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaenol) (Cymru) 2011(3) wedi ei ddirymu.

-
- (1) 2002 p. 32. Diwygiwyd is-adran (2) o adran 108 gan adran 21(1) a (7)(a) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5). Diwygiwyd is-adran (6) o adran 108 gan O.S. 2010/1158 ac is-adrannau (2), (6) ac (11) gan baragraffau 11 i 13 o'r Atodlen i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1).
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
- (3) O.S. 2011/1947 (Cy.213).

Leighton Andrews

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion
Cymru.

23 Mawrth 2012